## Ymdriniaeth Sgiliau - **Gourmet Byd Eang**

| Meddwl ar draws y Cwricwlwm | Ymgysylltu | Datblygu | Arloesi | Mynegi |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn cwestiynau | X | X | X | X |
| Ysgogi sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol | X | X | X | X |
| Cywain gwybodaeth | X | X | X | X |
| Pennu'r broses/dull gweithio a'r strategaeth | X | X | X | X |
| Pennu meini prawf llwyddiant | | X | X | X |
| Creu a datblygu syniadau | X | X | X | X |
| Gweld gwerth mewn camgymeriadau a deilliannau annisgwyl | X | X | X | X |
| Meddwl entrepreneuraidd | X | X | X | X |
| Meddwl am achos ac effaith a dod i gasgliadau | | X | X | X |
| Meddwl yn rhesymegol a chwilio am batrymau | | X | X | X |
| Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau | | | X | X |
| Ffurfio barn a gwneud penderfyniadau | | | X | X |
| Monitro cynnydd | | | X | X |
| Adolygu deilliannau a meini prawf llwyddiant | | | X | X |
| Adolygu'r broses/dull gweithio | | X | X | X |
| Gwerthuso eu dysgu a'u meddwl eu hunain | | | X | X |
| Cysylltiadau a meddwl ochrol | | | X | X |
| **Cyfathrebu ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Datblygu gwybodaeth a syniadau | X | X | X | X |
| Cyflwyno gwybodaeth a syniadau | X | X | X | X |
| Defnyddio strategaethau darllen i ddod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio | X | X | X | X |
| Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd | X | X | X | X |
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | X | X | X | X |
| Ysgrifennu yn gywir | | X | X | X |
| Cyfleu syniadau ac emosiynau | | X | X | X |
| Cyfleu gwybodaeth | | X | X | X |
| **TGCh ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Dod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu | X | X | X | X |
| Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | X | X | X | X |
| **Rhif ar draws y cwricwlwm** | | | | |
| Defnyddio rhifau | | X | X | |
| Mesur | X | X | X | |
| Casglu gwybodaeth | X | X | X | |
| Defnyddio'r system rifau | | X | X | |
| Defnyddio amrywiaeth o ddulliau | | X | X | |
| Trafod ac esbonio gwaith | | X | X | X |
| Cymharu data | | X | X | X |
| Cofnodi a dehongli data a chyflwyno canfyddiadau | | X | X | X |

**Ebost: info@cornerstoneseducation.co.uk**
**www. cornerstoneseducation.co.uk**

Cornerstones Addysg

Cynllunio a chynhyrchu'r ffolder: GLM Design & Print
Ffôn: 0114 2757444 Ebost: glmdesign@btconnect.com

# Gourmet Byd Eang

**Prosiect Dysgu Dychmygus i Blant CA2 Isaf**

Cornerstones Cwricwlwm

The Learning Partnership Wales



| YMDRINIAETH TESTUN: **Gourmet Byd Eang** | |
|---|---|
| Testun Ffocws PDD | Dylunio a Thechnoleg |
| Genre Ysgrifennu PDD | Llythyron |
| Celf a Dylunio | Graffeg Celf Posteri |
| D a Th | Technoleg Bwyd |
| Daearyddiaeth | Bwyd o gwmpas y Byd |
| Hanes | Masnachu o gwmpas y Byd |
| TGCh | Ymchwil |
| Mathemateg | Rhif (Problemau Arian) Mesurau |
| ABCH a D | Masnach Deg |
| Gwyddoniaeth | Rhyngddibyniaeth Organebau |

## Trosolwg o'r PDD

**Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynllunio a thechnoleg bwyd ac yn dysgu plant am wahanol fathau o fwydydd o gwmpas y byd, masnach deg a phwysigrwydd bwyta diet iachus er mwyn eu lles. Wrth wraidd y prosiect hwn bydd plant yn dysgu sut i ysgrifennu llythyron ffurfiol ac anffurfiol a datblygu sgiliau ychwanegol yn ysgrifennu i hysbysebu a rhoi gwybodaeth.**

**Yn y Cam Arloesi mae plant yn cymhwyso eu sgiliau a'u dealltwriaeth trwy agor Caffi Rhyngwladol am ddiwrnod.**

**Yn y prosiect hwn bydd plant yn dysgu:**

- O ble y daw'r bwydydd, a sut mae gan fwydydd 'ôl troed carbon' sy'n effeithio ar y gost ;
- Am draddodiadau diwylliannol sy'n perthyn i fwyd; sut mae cynhyrchu bwyd yn bwysig i rai gwledydd arbennig;
- Sut mae diet yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles;
- Gwneud mesuriadau cywir manwl a chyfrifo costau bwydydd a chynhwysion;
- Datblygu sgiliau technoleg bwyd sylfaenol a dilyn ryseitiau;
- Cydweithio fel tîm, penderfynu ar gryfderau, gwendidau a diddordebau aelodau'r tîm;
- Sut i ysgrifennu llythyron ar gyfer ystod o ddibenion a hynny'n ffurfiol ac anffurfiol.

Hawlfraint © 2010 Addysg Cornerstones Cyfyngedig

# SYNIADAU AR GYFER Y PROSIECT
## Prosiect Dysgu Dychmygus: **Gourmet Byd Eang**

Cornerstones Cwricwlwm
The Learning Partnership Wales

## 1. YMGYSYLLTU

**Mae plant yn ymgysylltu â phrofiadau dysgu pwrpasol a chyd-destunol; yn y dosbarth a'r tu allan iddo, gan wneud y defnydd gorau o bartneriaid, arbenigwyr a'r gymuned i ddarparu'r symbyliad i ddysgu.**

- Ymweld â siop neu archfarchnad leol. Darganfod o ble y daw gwahanol fathau o fwydydd.
- Ymweld â chaffi lleol i ddeall gwahanol rolau ac edrych ar fwydlenni a dewis bwydydd.
- Ymweld â fferm leol a dod i wybod am fwyd, tyfiant a ffordd o fyw.
- Sefydlu ardal ymholiadau gan gynnwys ystod o lyfrau, arteffactau a bwydlenni.
- Arddangos ystod o fwydydd o wahanol leoedd o gwmpas y byd.
- Arddangos mapiau a globau i ddangos gwahanol wledydd a llwybrau masnach.
- Ymweld â fferm neu wahodd ffermwr neu gynhyrchwr bwyd i siarad am dyfiant a dosbarthiad bwyd yng Nghymru.
- Arddangos a darllen ystod o fwydlenni o wahanol fathau o fwytai o gwmpas y byd, cymharu hyn a bwyd a chynnyrch lleol.
- Ymchwilio gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd i weld o ble y daw gwahanol fathau o fwydydd.
- Gwneud brasluniau a lluniau o wahanol fathau o fwydydd o arsylwadau uniongyrchol.
- Edrych ar reolau am hylendid bwyd a deall pam fod hylendid bwyd yn bwysig i'n hiechyd a'n lles.
- Arddangos ffotograffau a nodiadau a gymerwyd yn ystod ymweliadau ac ychwanegu sylwebaeth ac anodiadau.
- Darllen ryseitiau er mwyn edrych ar bwysau a chyfaint. Cymharu â threfnu cyfansymiau a chyfeintiau.
- Archwilio ystod o ddiwylliannau a thraddodiadau lle mae bwyd yn rhan arwyddocaol o ddathliad, gan gynnwys dathliadau Cymreig a bwydydd traddodiadol.
- Gwahodd ymwelwyr o wahanol wledydd i gyflwyno bwydydd traddodiadol ac annog y plant i'w blasu.
- Dilyn ryseitiau a chyfarwyddiadau i wneud gwahanol fathau o fwydydd o gwmpas y byd.

## 3. ARLOESI

**Rhoddir cyfle i blant i arloesi trwy gymhwyso eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy brocio heriol, gan ddefnyddio eu syniadau eu hunain a rhai a drafodwyd.**

### Enghraifft o brocio

Mae'ch dosbarth yn mynd i greu bwyty rhyngwladol go iawn fydd ar agor am ddiwrnod yn unig. Bydd eich bwyty chi yn gweini bwyd o Gymru a dros y byd. Rhaid i chi benderfynu ar fwydlen a chymryd arnoch wahanol rolau er mwyn sicrhau fod y bwyty yn rhedeg yn llyfn. Fe fyddwch chi'n gyfrifol am gyfrifo cost y fwydlen, dibynnu ar gost y cynhwysion a chost y staff. Rhaid i'r bwyty fod yn llwyddiant heb golli arian.

### Er mwyn bod yn llwyddiannus yn y dasg hon, rhaid i chi:

- Ystyried pa fwydydd sy'n boblogaidd ym mha ddiwylliannau: darganfod sut y defnyddir bwyd mewn dathliadau a thraddodiadau mewn diwylliannau amrywiol, penderfynu pa un o'r bwydydd hynny sy'n debygol o fod yn boblogaidd yn eich bwyty a sut y byddwch chi'n eu paratoi;
- Penderfynu ar y fwydlen i'ch bwydydd a dilyn rysáit i baratoi eich bwyd;
- Penderfynu pa fwydydd sy'n iachus a pha rai sy ddim- penderfynu ar fwydlen gytbwys;
- Costio'ch bwyty yn fanwl gywir - darganfod faint fydd cost y cynhwysion i'ch bwydlen ddewisedig, pa gynhwysion fydd eu hangen arnoch a faint o dâl i'w godi am y bwydydd ar ôl eu cwblhau;
- Neilltuo rolau a chyfrifoldebau yn y bwyty - cydweithio fel tîm
- Gwneud yn siŵr eich bod yn deall pwysigrwydd hylendid wrth ddelio â bwyd;
- Cynllunio deunydd hysbysebu ar gyfer eich bwyty;
- Addurno eich bwyty a'i wneud yn ddeniadol i gwsmeriaid;
- Gwerthuso llwyddiant eich prosiect, gan gynnwys a wnaeth y bwyty elw neu golled.

## 2. DATBLYGU

**Mae plant yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau testun sydd eu hangen i ddatblygu eu dysgu trwy wahaniaethu ansawdd a thasgau a phrofiadau dysgu gyda ffocws arbennig.**

- Deall sut mae gwahanol wledydd yn cefnogi eu heconomi trwy dyfiant bwyd. Cynnwys un sy heb ddatblygu cystal yn economaidd, a dysgu sut mae'r gwledydd hyn yn gwneud a thyfu bwyd a chnydau, a sut y cludir y rhain i wledydd eraill. Cymharu â chynhyrchu bwyd a ffermio lleol a chenedlaethol.
- Deall oblygiadau dosbarthiad bwyd a phecynnu ar yr amgylchedd. Tynnu llun mapiau byd a dangos y llwybrau.
- Ymchwilio i effaith ffermio drwy hanes yng Nghymru a'r ffyrdd y mae hyn wedi cael effaith ar fywydau pobl yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.
- Deall ystyr masnach deg ac edrych ar rai enghreifftiau o hyn ar waith.
- Edrych ar ddatblygiad hanesyddol masnach ac ysgrifennu am yr effaith gafodd hyn ar drefi a dinasoedd gwahanol yng Nghymru.
- Deall pa fathau o fwyd sydd ei angen arnom i dyfu cyrff iachus a dysgu sut i greu bwydydd iachus.
- Defnyddio'r Rhyngrwyd a ffynonellau eraill o wybodaeth megis llyfrau a CD Roms ar gyfer ymchwilio i unrhyw un o'r ffeithiau a gwybodaeth uchod.
- Dilyn cyfarwyddiadau i wneud bwydydd traddodiadol gan gynnwys ryseitiau yn y Gymraeg.
- Darllen, dysgu a deall gwahanol nodweddion ysgrifennu llythyron yn ffurfiol ac anffurfiol.
- Datblygu iaith i gyfathrebu ag eraill yn fwy ffurfiol trwy lythyron.
- Deall sut y defnyddir iaith i roi gwybodaeth i bobl am fwyd. Dadansoddi'r wybodaeth a roddir ar becynnau, labeli, posteri a hysbysebion.
- Dysgu sut mae gofyn am fwyd arbennig mewn ystod o dai bwyta, caffes a marchnadoedd mewn iaith dramor.
- Defnyddio sgiliau TGCh i greu hysbysebion syml a phosteri ar gyfer bwydydd a chaffes.
- Datblygu sgiliau mathemategol ar gyfer datrys problemau arian trwy ystod o weithgareddau ymarferol.
- Pwyso a mesur cynhwysion a bwyd. Datrys problemau sy'n gysylltiedig â mesurau.
- Gwrando ar gerddi a storïau am fwyd a ffermio.
- Darganfod hoff rysáit o wlad o'u dewis. Cadw trwy ddefnyddio TGCh.

## 4. MYNEGI

**Mae plant yn mynegi a gwerthuso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, fel deilliannau'r dysgu mewn dulliau cofiadwy gwahanol yn cynnwys defnyddio amrywiaeth o gyfryngau a thechnoleg.**

- Ysgrifennu llythyron yn gwahodd rhieni ac oedolion eraill i ddigwyddiadau yn y dosbarth gan gynnwys y Diwrnod Bwyty Rhyngwladol.
- Ymarfer sgiliau siarad a gwrando a chyflwyno wrth ddelio â chynulleidfa neu gwsmeriaid.
- Gwneud arddangosfeydd am yr hyn a ddysgwyd y gellir eu gweld gan rieni ar Ddiwrnod y Bwyty.
- Gwneud arddangosfa masnach deg a chyflwyno gwasanaeth i blant eraill yn yr ysgol.
- Ysgrifennu llythyr at archfarchnad neu siop leol am faterion masnach deg.
- Mireinio hysbysebion, printiau a phosteri ar gyfer arddangosfeydd.
- Creu cyflwyniadau Pwerbwynt am wledydd eraill i'w dangos yn y Bwyty. Canolbwyntio ar gyflwr gwledydd sydd angen masnach deg.
- Ystyried sut y gallant newid eu harferion bwyta er mwyn sicrhau diet mwy iachus neu ffordd fwy moesol o fwyta a chynhyrchu bwyd.
- Mynegi eu hunain mewn ieithoedd gwahanol i ofyn am fwyd o gwmpas y byd.
- Arddangos ffotograffau o fwydydd y maen nhw wedi'u paratoi a llunio eu llyfrau ryseitiau eu hunain.
- Ystyried a gwerthuso'r hyn a ddysgwyd ganddynt yn ystod y prosiect. Gwneud nodiadau mewn log dysgu.
- Mynegi mewn termau mathemategol rhai o'r achosion yn ymwneud â bwyd, siopa a masnach. Sut y gallwn ni siopa yn fwy economaidd? Faint mae'n ei gostio i wneud cacen mewn cyferbyniad a phrynu un?
- Ysgrifennu rhestr siopa masnach deg gan ddefnyddio safleoedd siopa ar y Rhyngrwyd.

Hawlfraint © 2010 Addysg Cornerstones Cyfyngedig